Cyflwyniad i ofal cymdeithasol | Introduction to social care

# Dechreuwch eich taith gofal cymdeithasol heddiw!

Oes diddordeb â chi mewn gyrfa ym maes gofal cymdeithasol? Rydyn ni'n cynnig rhaglen dridiau, ar-lein am ddim i bobl sy'n byw yng Nghymru, i roi syniad iddyn nhw o sut beth yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Pan fyddwch yn cychwyn byddwch yn derbyn llyfr gwaith, ynghyd â chefnogaeth gan diwtoriaid ac hyfforddwr gwaith.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- rolau ym maes gofal cymdeithasol
- dyletswydd gofal, risg a diogelu
- Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- cyfathrebu a rhwystrau
- hyrwyddo annibyniaeth
- cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch
- gwydnwch personol a llesiant
- caniatâd a chyfrinachedd.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r rhaglen, bydd gennych fynediad at hyfforddwr gwaith sy'n cynnig cymorth parhaus gyda'r canlynol:

- parodrwydd am waith
- dod o hyd i'r swydd neu gyfle gwirfoddoli iawn
- gweithdai ar adeiladu CV, ysgrifennu ffurflenni cais a sgiliau cyfweld.

Os hoffech chi ddysgu mwy neu os ydych chi'n ystyried gyrfa mewn gofal cymdeithasol, ymunwch â'n rhaglen a dechreuwch eich taith gofal cymdeithasol heddiw!



I archebu eich lle, ewch i:
**gofalwn.cymru/cyflwyniadiofalcymdeithasol**

**neu defnyddiwch y côd QR**

**Gofalwn.cymru | WeCare.wales**

# Cyflwyniad i **ofal** cymdeithasol | Introduction to **social care**

## Meddwl am yrfa ym maes gofal cymdeithasol?
## Yn byw yng Nghymru a rhwng 14-17 oed?

Rydym yn cynnig rhaglen ddiwrnod a hanner ar-lein am ddim. Pan fyddwch yn dechrau byddwch yn derbyn llyfr gwaith, ynghyd â chefnogaeth gan diwtoriaid ac anogwr gwaith.

### Grŵp 1

Dydd Mawrth 2 Awst
10.30am – 2.30pm
Dydd Mercher 3 Awst
10.30am – 12.30pm

### Grŵp 2

Dydd Mawrth 9 Awst
10.30am – 2.30pm
Dydd Mercher 10 Awst
10.30am – 12.30pm

### Grŵp 3

Dydd Iau 6 Hydref
4.30pm – 6.30pm
Dydd Iau 13 Hydref
4.30pm – 6.30pm
Dydd Iau 20 Hydref
4.30pm – 6.30pm

### Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- beth yw gofal cymdeithasol?
- rolau o fewn gofal cymdeithasol
- rhinweddau a disgwyliadau gweithiwr gofal cymdeithasol
- ffeindio swydd ym maes gofal cymdeithasol
- dyletswydd gofal, risg a diogelu
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- gweithio amlasiantaethol
- cyfathrebu a rhwystrau
- cyfrinachedd a chydsyniad
- hyrwyddo annibyniaeth
- gwydnwch a llesiant personol.

Eisiau gwybod mwy? Ymunwch ag un o'n grwpiau a dechrau eich taith gofal cymdeithasol heddiw!

I archebu eich lle neu os oes gennych gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â cyswllt@gofalwn.cymru.

